**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 4 Awst 2022 am 3.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -**

**Siambr y Cyngor**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)
Y Cynghorydd G Hughes  Y Cynghorydd W Lewis

**Zoom**

Y Cynghorydd J Bonetto  Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd W Owen  Y Cynghorydd J Smith
Y Cynghorydd D Williams

**Swyddogion oedd yn bresennol: -**

**Siambr Y Cyngor**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

**Zoom**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi

## 34 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol D Grehan, L Tomkinson a R Williams.

## 35 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

12. CAIS: 22/0549.
Y Cynghorydd Gareth Hughes, Buddiant Personol, “Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd”

## 36 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**37 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**38 COFNODION 07.07.22**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 07.07.22 yn rhai cywir.

**39 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**40 CAIS RHIF: 22/0171**

**Amrywio amod 2 (cynlluniau a gymeradwywyd) caniatâd cynllunio 20/1198/10 (ail-gyflwyno). PLOT 1, TIR YN 53 RHODFA CENARTH, CWM-BACH, ABERDÂR CF44 0NH**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Kevin Toland (Yn cynrychioli'r ymgeisydd, o blaid)
- Sian Davies (Gwrthwynebydd)
- Gavin Davies (Gwrthwynebydd)

Arferodd Kevin Toland yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebwyr.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r pwyllgor ac argymhellodd fod y cais yn cael ei gymeradwyo gydag amod ychwanegol mewn perthynas â'r ffens/sgrin sydd wedi'i gosod, byddai'r amod yma'n

mynnu bod y ffens/sgrin yn cael ei chynnal a'i chadw am byth. Os bydd y ffens/sgrin yn cael ei hadnewyddu, rhaid defnyddio dyluniad a deunyddiau tebyg. Yn dilyn trafodaeth a dadl, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr, Ffyniant a Datblygu, gan gynnwys yr amodau a nodir yn yr adroddiad ac amod ychwanegol mewn perthynas â'r ffens/sgrin, mae'r amod yn mynnu bod y ffens/sgrin yn cael ei chynnal a'i chadw am byth. Os bydd y ffens/sgrin yn cael ei hadnewyddu, rhaid defnyddio dyluniad a deunyddiau tebyg.

(**Nodwch:** Ymatalodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Williams o'r bleidlais gan nad oedd yn bresennol ar gyfer yr holl ddadl.)

**41 CAIS RHIF: 21/1385**

**Decin pren uchel. 36 TERAS BRONIESTYN, TRECYNON, ABERDÂR, CF44 8EG**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Chris Harris (Ymgeisydd)
- Gerrard O'Neill (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Chris Harris, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd.

Cyfeiriodd y Pennaeth Materion Cynllunio at lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth y gwrthwynebydd, Gerrard O'Neill. Cafodd cynnwys y llythyr ei amlinellu yn ei anerchiad i'r Pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth hir ynglŷn â'r cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**42 CAIS RHIF: 22/0614**

**Newid defnydd Siop Fanwerthu A1 i Siop Pysgod a Sglodion A3. 11 HEOL CLYDACH, CWM CLYDACH, TONYPANDY, CF40 2BD**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Robert Hathaway (Asiant, o blaid)
- David McNeil (Gwrthwynebydd)
- Heather Rennie (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Robert Hathaway, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, roedd yr Aelodau o blaid gwrthod y cais uchod yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu oherwydd pryderon am leoliad y datblygiad arfaethedig ac effaith defnydd A3 ar gymdogion cyfagos, yr effaith ar y priffyrdd cyfagos a'r diffyg manylion ynglŷn â'r ddarpariaeth echdynnu. O ganlyniad i hynny, penderfynwyd gohirio’r mater tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**43 CAIS RHIF: 21/1602**

**Dymchwel adeiladau presennol sy'n ymwneud â'r hen ysgol a chodi 5 tŷ ar wahân ynghyd â gwaith cysylltiedig gan gynnwys gwaith peirianneg, draenio a thirlunio. (Derbyniwyd cynlluniau ychwanegol ar 04/03/22) HEN YSGOL IAU'R PORTH, TERAS Y BRIALLU, PORTH, CF39 9TH**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Joan Isus (Asiant, o blaid y cais)
- David Walters (Sylwadau)

Arferodd yr Asiant, Joan Isus, yr hawl i ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amod ychwanegol ynghylch yr oriau gwaith, bydd y rhain yn cael eu dirprwyo i'r Pennaeth Materion Cynllunio, er budd amwynder preswylwyr cyfagos.

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams y cyfarfod (16:35pm))

**44 CAIS RHIF: 22/0347**

**Cais i newid defnydd o siop (A1) i siop bwyd brys sy'n gwerthu pizzas (A3) gan gynnwys mân newidiadau allanol i ddrysau a ffenestri (derbyniwyd disgrifiad, cynllun a manylion diwygiedig ar 10/06/2022). 56A HEOL Y JIWBILÎ, ABERAMAN, ABERDÂR, CF44 6DD**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Chris Peters (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio penderfynu ar y cais tan un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn caniatáu trafodaethau pellach rhwng Swyddogion y Priffyrdd a'r Ymgeisydd mewn perthynas â'r argymhelliad i weithredu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) i atal ceir rhag parcio ar y stryd, yn benodol ar y tro.

(**Nodwch:** Cymerodd y Pwyllgor doriad o bum munud ar yr adeg yma)

**45 CAIS RHIF: 22/0308**

**Amrywio amodau 2 a 3 i ymestyn yr amser i gyflwyno materion wedi'u cadw'n ôl (cyf 13/0070/13) TIR I'R GORLLEWIN O DERAS ARDWYN, TONYPANDY**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Elene Gegeshidze (Asiant). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau ar y cynnig uchod.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**46 CAIS RHIF: 21/1661**

**Ychwanegu llawr caled o flaen y byngalo. 17 NANT Y GLYN, ABERPENNAR, CF45 3DH**

Amlinellodd y Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd oddi wrth un o drigolion Nant y Glyn, roedd y llythyr yn nodi pryderon ynghylch preswylwyr eiddo 17 Nant y Glyn sy'n parhau i barcio ar y stryd yn hytrach na defnyddio'r cyfleuster parcio ychwanegol ar gyfer dau gar.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y

Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

47 **CAIS RHIF: 22/0468**

**Newid defnydd hen glinig Llwyn yr Eos (Dosbarth Defnydd D1) i annedd preswyl (Dosbarth Defnydd C3). CLINIG LLWYN YR EOS, YR HEOL FAWR, PENTRE'R EGLWYS, PONTYPRIDD, CF38 1RN**

Yn dilyn trafodaeth, ac yn sgil y pryderon a godwyd mewn perthynas â defnydd C3(b) a C3(c), **PENDERFYNWYD** gohirio'r penderfyniad i gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn mynd ati i ymgynghori â'r Heddlu i weld a oes yna enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar safle'r datblygiad arfaethedig ar hyn o bryd.

48 **CAIS RHIF: 22/0549**

**Cael gwared ar gysgodfan ysmygu bresennol ac ymestyn y man yfed awyr agored presennol. GWESTY'R LION, STRYD BUTE, TREORCI, CF42 6AH**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

49 **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 11/07/2022 tan 22/07/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.28 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**